**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.30am drwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Mercher 4 Tachwedd 2020**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Melody Chapman, Gareth Wynn Davies, Huw Davies, John T Davies, Rhys Davies, Rachael Madeley Davies, Prys Morgan, Nadine Porter, Catherine Smith a Claire Williams

**Trwy Wahoddiad:** Laura Hughes,
Maria Richards (Llywodraeth Cymru)

**Y Weithrediaeth yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes (Swyddog Gweithredol Cig Coch).
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

**I gael briff am EIDCymru ac Amlrywogaeth Cymru (MSW)**

Croesawodd y Cadeirydd Laura Hughes, Pennaeth Gweithredu'r Polisïau Anifeiliaid, Llywodraeth Cymru i'r cyfarfod i roi trosolwg o EIDCymru ac Amlrywogaeth Cymru (ar gael trwy Sharepoint / Y Bwrdd / Gwybodaeth / Cyflwyniadau).

Diolchodd y Cadeirydd i Laura Hughes am y diweddariad a dechreuodd y rhan ffurfiol o gyfarfod y Bwrdd.

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i bedwerydd cyfarfod ffurfiol y Bwrdd i gael ei gynnal yn rhithiol oddi ar y pandemig Coronafeirws (Covid-19).

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol rhithiol y bu'n eu mynychu oddi ar y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd: -

8 Medi 2020 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghyfarfod Llywodraethu Chwarterol Llywodraeth Cymru / HCC.

22 Medi 2020 – Cyfarfod cynllunio cyn y gynhadledd gyda'r Prif Weithredwr a Rheolwr Cyfathrebu

24 Medi 2020 – Grŵp y Prif Weinidog ar Ymadael â'r UE

1 Hydref 2020 – Diweddariad Bwrdd HCC a chyfarfodydd Grŵp Polisi Masnach Llywodraeth Cymru

5 Hydref 2020 – Cyfarfod o Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.

6 Hydref 2020 – Cyfarfod Pwyllgor Cynghori ar Farchnata HCC (Gweler Eitem 10b)

8 Hydref 2020 – Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus gyda'r Prif Weithredwr

12 Hydref 2020 – Cyfarfod bord gron EERA y Gweinidog i drafod Cyfnod Pontio'r UE.

22 Hydref 2020 – Rhoddodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr dystiolaeth i'r Comisiwn Masnach ac Amaeth

27 Hydref 2020 – Cyfarfod Pwyllgor Cynghori ar Farchnata HCC

2 Tachwedd 2020 – Sifftio ar gyfer penodi Cadeirydd HCC

3 Tachwedd 2020 – Sesiwn cynllunio Bwrdd HCC (Gweler Eitem 9)

2. **<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb</u>**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3. **<u>Datganiadau o Fuddiannau</u>**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

4. **<u>I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 3 Medi 2020 (HCC 961)</u>**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 3 Medi 2020 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **<u>Materion yn codi</u>**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6. **<u>Y diweddaraf am Brexit - I drafod y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r DG yn ymadael â'r UE</u>**

Nodwyd bod y trafodaethau Brexit wedi parhau rhwng Llywodraeth Y DG a'r UE heb unrhyw gynnydd i'w adrodd. Roedd yn ymddangos yn annhebygol y ceid cytundeb masnach yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, byddai angen cael trafodaethau llwyddiannus cyn bod y DG yn ymadael â'r UE ar 31 Rhagfyr 2020.

Bu trafodaeth ynghylch y pryderon ac ansicrwydd parhaus a'r amharu difrifol a allai ddigwydd i'r gadwyn gyflenwi da dyw.

Roedd Llywodraeth Cymru a HCC yn dal i weithio i fod yn barod ar gyfer Brexit.

Cytunwyd y dylid cael cyfarfod brys o'r Bwrdd cyn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 14 Ionawr 2021, pe bai angen trafod datblygiadau o bwys.

7. **Cynllun Gweithredol HCC ar gyfer 2020 / 2021**

a. I ystyried yr adolygiad 6-misol o berfformiad Cynllun Gweithredol HCC 2020 / 2021 yn ôl Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) (HCC 962)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen ac wedi'i gyflwyno gan y Swyddog Cig Coch.

Yn dilyn trafodaeth, roedd y Bwrdd yn fodlon â'r sefyllfa ar hyn o bryd.

b. I gymeradwyo newidiadau i'r Dangosyddion ar gyfer Cynllun Gweithredol HCC 2020 / 2021 oherwydd effaith y pandemig Covid-19 (HCC 963)

Mewn perthynas â Phapur HCC 962, cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen ac wedi'i gyflwyno gan y Swyddog Cig Coch.

Byddai'r tri tharged wedi'u cymhwyso a argymhellwyd ac sy'n cael sylw yn y papur yn anodd eu cyrraedd oherwydd y pandemig Covid-19.

Nodwyd y newidiadau a chafwyd cytundeb y Bwrdd.

8. **I ystyried y cyfraddau Ardoll Cig Coch a chostau adennill ar gyfer 2021/ / 2022 (HCC 964)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen ac wedi'i gyflwyno gan y Swyddog Cig Coch.

Roedd y trafodaethau ynghylch ymadawiad y DG o'r UE a'r tarfu a allai ddigwydd oherwydd cytundeb masnach anfoddhaol o 1 Ionawr 2021 yn dal i greu ansicrwydd, a oedd yn cynyddu ymhellach oherwydd y pandemig Covid-19.

Ar ben hyn, roedd y Bil Amaethyddiaeth (yn mynd drwy'r broses Seneddol ar hyn o bryd) yn gyfle i unioni annhegwch yr Ardoll. Rhagwelwyd ar hyn o bryd y byddai'r Bil yn derbyn y Cydsyniad Brenhinol yn ystod y tymor Seneddol cyfredol ac y byddai Cymru, o fis Ebrill 2021, yn elwa o tua £1 miliwn y flwyddyn yn sgil ailwladoli'r Ardoll.

A chymryd yr uchod i ystyriaeth, argymhellodd y Weithrediaeth i'r Bwrdd y dylid cadw'r cyfraddau Ardoll ar gyfer 2021 / 2022:

| **Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru (ar gyfer 2021/2022)** | | | |
|---|---|---|---|
| *(y pen)* | **Cyfanswm, y Casgliad Ardoll** | **Cyfanswm wedi'i Dalu gan y Cynhyrchwr** | **Cyfanswm wedi'i Dalu gan y Lladd-dy/Allforiwr** |
| **Defaid** | £ 0.83 | £ 0.63 | £ 0.20 |
| **Gwartheg** | £ 5.67 | £ 4.34 | £ 1.33 |
| **Lloi** (hyd at 68kg) | £ 0.17 | £ 0.085 | £ 0.085 |
| **Moch** | £ 1.30 | £ 1.05 | £ 0.25 |

| **Costau Adennill Ardoll ar gyfer 2021/2022** | |
|---|---|
| **Rhywogaeth** | **Ardoll wedi'i Hadennill (y pen)** |
| Defaid | £0.010 |
| Gwartheg | £0.030 |
| Moch | £0.013 |

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Bwrdd â'r argymhelliad.

**<u>Y Camau Nesaf</u>**

Câi argymhelliad y Bwrdd ei gyflwyno i'r Gweinidog Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig er mwyn pennu cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2021 / 2022.

9. **<u>I gael diweddariad ynghylch y broses gynllunio ar gyfer Cynllun Corfforaethol HCC 2021 / 2024 a Chynllun Gweithredol HCC 2021 / 2022</u>**

Cynhaliwyd cyfarfod cynllunio o'r Bwrdd trwy gyfrwng Teams i drafod yr uchod ddydd Llun 3 Tachwedd 2020.

Dechreuodd y cyfarfod gyda Dr Tim Render, Cyfarwyddwr Materion yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru a arweiniodd drafodaeth am effaith Brexit ar ddiwydiant cig coch Cymru. Dilynwyd hyn gan gyflwyniad a thrafodaeth â Richard Brown, Cyfarwyddwr Gira, ar y cyfleoedd i gig coch Cymru gartref a thramor.

Yn dilyn yr uchod, bu'r Bwrdd yn trafod Gweledigaeth 2025 HCC i ystyried ei briodoldeb gyda golwg ar heriau a chyfleoedd cyfredol (ac yn y dyfodol).

Cytunwyd y dylid gohirio trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o ddim-cytundeb hyd nes bod y math o gytundeb ar gyfer ymadael â'r UE yn hysbys.

**Ffocws strategol**

Ar hyn o bryd, yng nghyd-destun Brexit a Covid-19, cytunwyd bod y naw maes o ffocws strategol yn Gweledigaeth 2025 yn berthnasol o hyd:

1. Gosod cig coch o Gymru fel cynnyrch premiwm.
2. Datblygu cyfleoedd masnachu yn yr UE ar gyfer cig coch Cymru.
3. Sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o cig coch o Gymru ym Mhrydain.
4. Chwilio am ddefnyddwyr newydd ar gyfer cig coch Cymru yn fyd-eang mewn marchnadoedd sy'n bodoli.
5. Sicrhau canran uwch o allforion cig coch Cymru y tu allan i'r UE.
6. Datblygu diwydiant cig coch Cymru sydd yn gystadleuol.
7. Lleihau effaith cynhyrchu a phrosesu cig coch Cymru ar yr hinsawdd, yr amgylchedd a gwastraff.
8. Cynllunio wrth gefn o ran masnachu, cynhyrchu a phrosesu yn y dyfodol ar ôl Brexit.
9. Cyfathrebu effeithiol ledled y diwydiant i sicrhau undod o ran bwriad.

Yn benodol, cytunodd y Bwrdd fod y cynnig premiwm yn dal i fod yn briodol ar gyfer cig coch Cymru.

Cytunwyd hefyd fod angen parhau â'r datblygiad aml-farchnad, sef cynnal cyfleoedd masnachu ym marchnad yr UE, parhau i dargedu marchnadoedd sy'n datblygu a chwilio am gyfleoedd mewn marchnadoedd newydd.

Cytunodd y Bwrdd, fodd bynnag, fod angen integreiddiad pellach o'r heriau a'r cyfleoedd y mae cynaliadwyedd yn eu rhoi i ddiwydiant cig coch Cymru – o ran ymateb i newid yn yr hinsawdd a gwella'r negesau tarddiad hysbys – ar draws y gadwyn gyflenwi. Hefyd, byddai angen targedu cyfathrebu wedi'i ffocysu ar negesau cynaliadwyedd positif yn y marchnadoedd manwerth, gwasanaeth bwyd ac allforio.

Yn ogystal â'r uchod, cytunodd y bwrdd fod angen manteisio mwy ar gyfleoedd yn y sector Halal.

Tynnwyd sylw at y cyfle i fanteisio ar y data a gipiwyd trwy EIDCymru. Dywedwyd ei fod yn gyfle pwysig a fyddai'n ychwanegu gwerth at berfformiad ac effeithlonrwydd y diwydiant.

Nododd y Weithrediaeth y câi'r uchod ei ystyried wrth lunio Cynllun Corfforaethol HCC 2021 / 2024 a'r Cynllun Gweithredol 2021 / 2022 a fyddai ar gael i'r Bwrdd eu hadolygu yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2021.

**<u>Adroddiadau HCC</u>**

a. <u>Gweithgareddau (HCC 965)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*<u>Caffael Cig Coch Cymru mewn sefydliadau Sector Cyhoeddus</u>*

Dywedodd Rheolwr Datblygu'r Farchnad fod adroddiad am yr uchod a gomisiynwyd gan HCC wedi ei gwblhau erbyn hyn.

Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid i nodi mesuriadau yn yr adroddiad er mwyn pennu Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Câi crynodeb o'r adroddiad ei baratoi ar gyfer cyfarfod y Bwrdd at 14 Ionawr 2021.

*Y Ffordd Gymreig: T*uag at Arweinyddiaeth Fyd-eang wrth Gynhyrchu Cig Oen a Chig Eidion mewn modd Cynaliadwy

Rhoddodd y Rheolwr Cyfathrebu ddiweddariad am adroddiad HCC.

b. Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 966)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen heb unrhyw faterion i'w hadrodd. Roedd yn galonogol nodi fod prisiau'r farchnad yn sefydlog.

Cytunwyd y dylid paratoi papur gwybodaeth / dadansoddi ynghylch ffactorau sy'n effeithio ar brisiau i'r ffermwyr yn 2020 ar gyfer cyfarfod 14 Ionawr 2021.

c. Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Medi 2020 (HCC 967)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

d. I gael cyflwyniad am ganlyniadau'r ymgyrch "Sticiwch at Stecen", a gafodd ei ariannu'n benodol gan yr Ardoll

Rhoddwyd cyflwyniad ynglŷn â'r uchod gan Reolwr Datblygu'r Diwydiant

e. I gael diweddariad am Gynhadledd Flynyddol HCC 2020.

Rhoddodd y Rheolwr Cyfathrebu ddiweddariad am y trefniadau ar gyfer Cynhadledd Rithiol HCC, 10 – 12 Tachwedd 2020.

Eleni, ceid clywed safbwyntiau ffermwyr, cigyddion a mân-werthwyr yn ogystal ag arbenigwyr sy'n adnabyddus yn rhyngwladol ynghylch effaith Covid-19 yn ystod y flwyddyn, ac edrych ymlaen at yr heriau mawr – megis cynaliadwyedd a masnach ryngwladol - a fydd yn wynebu'r diwydiant yn 2021.

f. Digwyddiadau i ddod (HCC 968)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

10. **Pwyllgorau HCC**

*Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu*

a. I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 3 Medi 2020 (HCC 969)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

*Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata*

b. I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Mawrth 6 Hydref 2020 (HCC 270)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

*Y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE)*

c. I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion drafft o gyfarfod y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE) a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Hydref 2020 (HCC 271)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

*Y Gweithgor Iechyd Diadelloedd a Buchesi (FHHWG)*

d. I gael adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Gweithgor Iechyd Diadelloedd a Buchesi (FHHWG) a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Hydref 2020 (HCC 272)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

*Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg*

e. I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Mercher 4 Tachwedd 2020

Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

11. **Papur er gwybodaeth: Datganiadau Ariannol EIDCymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020 (HCC 973)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

12. **Unrhyw fater arall**

*Ymddiswyddiad*

Dywedodd y Cadeirydd fod Nadine Porter wedi ymddiswyddo fel Cyfarwyddwr Anweithredol o Fwrdd HCC a dymunodd yn dda iddi ar gyfer y dyfodol yn Seland Newydd.

13. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod:**

Cyfarfod diweddaru'r Bwrdd drwy gyfrwng Teams – Dydd Iau 19 Tachwedd 2020 am 10.30am.
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 14 Ionawr 2021 am 10.30am.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**